# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 11 Mehefin 2019

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5664

## 213

## Cwestiwn Brys

Dechreuodd yr eitem am 13.30

**Gofyn i Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth:**

**Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr)** : A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cyhoeddiad diweddar gan Ford ynghylch Ffatri Beiriannau Pen-y-bont ar Ogwr?

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 14.15

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 15.18

## 3 Datganiad gan y Gweinidog Addysg: Rheoli Llwyth Gwaith a Lleihau Biwrocratiaeth

Dechreuodd yr eitem am 15.46

## 4 Datganiad gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit: Goblygiadau Cynigion Mewnfudo Llywodraeth y DU ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'r Economi Ehangach

Dechreuodd yr eitem am 16.27

## 5 Datganiad gan y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip: Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Hyrwyddo Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru

Dechreuodd yr eitem am 17.13

## 6 Dadl: Y Gronfa Ffyniant Gyffredin

Dechreuodd yr eitem am 18.03

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**NDM7062** – Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi:

a) bod Cymru yn cael tua £370m o gyllid strwythurol a buddsoddi bob blwyddyn o ganlyniad i aelodaeth y DU o'r UE;

b) yr addewidion a wnaed yn ystod refferendwm yr UE na fyddai Cymru'n colli ceiniog o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE;

c) cefnogaeth Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol a Phwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol, y Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Gyllid ar ôl Brexit ar gyfer Cenhedloedd, Rhanbarthau ac Ardaloedd Lleol, a'r rhan fwyaf o randdeiliaid, ar gyfer trefniadau i'r dyfodol sy'n parchu'r setliad datganoli.

2. Yn gresynu at ddiffyg manylder Llywodraeth y DU ynglŷn â'i chynigion ar gyfer Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU a'r ffaith ei bod wedi methu â pharchu'r setliad datganoli wrth ddatblygu'r cynigion hyn.

3. Yn gwrthod y syniad o gronfa ganolog neu gronfa dan gyfarwyddyd y DU neu un sy'n ceisio osgoi'r gweinyddiaethau datganoledig ar ôl Brexit.

4. Yn galw ar Lywodraeth y DU i:

a) cyflawni'r addewidion na fyddai Cymru'n colli ceiniog o ganlyniad i ymadael â’r UE;

b) parchu datganoli a sicrhau bod Cymru'n cadw'r ymreolaeth i ddatblygu a darparu trefniadau olynu ar gyfer cronfeydd strwythurol a buddsoddi sydd wedi'u teilwra i sefyllfa arbennig Cymru o ran polisi, deddfwriaeth a phartneriaeth.

**Cyd-gyflwynwyr**

Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1** – Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Dileu pwyntiau 2 a 3.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 10 | 2 | 34 | 46 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**

**NDM7062** – Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi:

a) bod Cymru yn cael tua £370m o gyllid strwythurol a buddsoddi bob blwyddyn o ganlyniad i aelodaeth y DU o'r UE;

b) yr addewidion a wnaed yn ystod refferendwm yr UE na fyddai Cymru'n colli ceiniog o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE;

c) cefnogaeth Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol a Phwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol, y Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Gyllid ar ôl Brexit ar gyfer Cenhedloedd, Rhanbarthau ac Ardaloedd Lleol, a'r rhan fwyaf o randdeiliaid, ar gyfer trefniadau i'r dyfodol sy'n parchu'r setliad datganoli.

2. Yn gresynu at ddiffyg manylder Llywodraeth y DU ynglŷn â'i chynigion ar gyfer Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU a'r ffaith ei bod wedi methu â pharchu'r setliad datganoli wrth ddatblygu'r cynigion hyn.

3. Yn gwrthod y syniad o gronfa ganolog neu gronfa dan gyfarwyddyd y DU neu un sy'n ceisio osgoi'r gweinyddiaethau datganoledig ar ôl Brexit.

4. Yn galw ar Lywodraeth y DU i:

a) cyflawni'r addewidion na fyddai Cymru'n colli ceiniog o ganlyniad i ymadael â'r UE;

b) parchu datganoli a sicrhau bod Cymru'n cadw'r ymreolaeth i ddatblygu a darparu trefniadau olynu ar gyfer cronfeydd strwythurol a buddsoddi sydd wedi'u teilwra i sefyllfa arbennig Cymru o ran polisi, deddfwriaeth a phartneriaeth.

**Cyd-gyflwynwyr**

Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 34 | 0 | 12 | 46 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

## 7 Cyfnod pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 19.11

Daeth y cyfarfod i ben am 19.12

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 12 Mehefin 2019**